**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Brian Leddin TD
Cathaoirleach

24 Hydref 2024

Cyfarfod Pwyllgorau'r Senedd â chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Amgylchedd a Gweithredu ar yr Hinsawdd

Annwyl Cathaoirleach,

Rwy'n ysgrifennu ar ran dirprwyaeth y Senedd i ddiolch i chi a'ch cyd-aelodau am gynorthwyo â'n hymweliad diweddar â Dulyn. Gwnaethom fwynhau ein cyfarfod ag Alan Farrell TD a Darren O'Rourke TD yn fawr iawn, a oedd yn addysgiadol, yn ddiddorol ac yn bwysig i'n gwaith parhaus ar gysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon.

Gwn fod Aelodau o'r Senedd wedi gwerthfawrogi'r drafodaeth ddiddorol am rai o'r heriau a'r cyfleoedd cyffredin wrth frwydro yn erbyn yr argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan yr Oireachtas a'r Senedd, yn ogystal â'r trefniadau craffu sydd gennych ar waith. Fel rhan o'n hymweliad, gwnaethom hefyd gyfarfod â Green Link Interconnector a Mares Connect a ddywedodd wrthym am y gwaith diddorol sy'n cael ei wneud ar seilwaith ar y cyd sy'n cysylltu ein cenhedloedd.

Yn dilyn yr ymweliad hwn, rydym yn croesawu eich cytundeb i archwilio sut y gallwn gryfhau cysylltiadau rhwng ein pwyllgorau.

Unwaith eto, ar ran holl Aelodau'r ddirprwyaeth, hoffwn ddiolch i chi a'ch cyd-Aelodau am y croeso cynnes a'ch amser.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol gan fod cynrychiolaeth o'u Pwyllgorau nhw wedi bod ar yr ymweliad hwn hefyd.

Yn gywir



Llyr Gruffydd AS,

Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Welsh Parliament